Sgiliau Hanfodol Cymru
Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS)
Lefel 1 – Tasg dan Reolaeth
Pecyn i Ymgeiswyr

Ffair Gyrfaoedd

Sampl 1
Fersiwn 2.0

Enw'r Ymgeisydd:
Rhif yr Ymgeisydd:
Dyddiad cofrestru ar gyfer ECommS
Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) *(os yw'n berthnasol)*:
Enw *neu* rif y Ganolfan

Cyfarwyddiadau

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich enw, eich rhif ymgeisydd, eich ULN (os yn berthnasol) ac enw neu rif y ganolfan yn y blychau ar dop y dudalen hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud **pob** rhan o'r dasg.

Mae gennych chi **4 awr** i orffen y dasg hon, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau. Mae'n **rhaid** i chi gofnodi isod beth oedd dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob sesiwn:

Dyddiad **dechrau**'r dasg dan reolaeth:							
Dyddiad **gorffen** y dasg dan reolaeth (*dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach):*							
Sesiwn 1	**Sesiwn 2**	**Sesiwn 3**	**Sesiwn 4**	**Sesiwn 5**	**Sesiwn 6**	**Sesiwn 7**	**Sesiwn 8**
	Dyddiad	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*
Hyd	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*
Cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn gwneud y dasg:							

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd pob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:
Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario, cyfarwyddiadau a ffynonellau gwybodaeth.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwy'r senario, y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth sydd yn y ffynonellau yn ofalus cyn dechrau.
- Bydd rhywun yn eich goruchwylio gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg, ond byddwch yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, o bosib) yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei gyflwyno fod yn waith rydych **chi eich hun a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd ag unrhyw rai o ddeunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim gweld y deunyddiau rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn **llofnodi'r datganiad** sydd yng nghefn y pecyn hwn ar ddiwedd eich sesiwn olaf yn gweithio ar y dasg.

Cyfarwyddiadau'r Dasg: Ffair Gyrfaoedd

Beth mae angen i chi ddod o hyd iddo

Senario
Rydych chi'n gweithio yn adran gwasanaethau i fyfyrwyr eich coleg lleol. Bob blwyddyn, mae'r coleg yn trefnu ffair gyrfaoedd i roi gwybod i bobl am gyfleoedd gwaith sydd ar gael yn lleol. Mae eich rheolwr wedi gofyn i chi helpu i baratoi ar gyfer y ffair gyrfaoedd.

Beth mae angen i chi ei wneud - Rhan 1

Darllen
Mae'n rhaid i chi allu canfod y prif bwyntiau a'r prif syniadau yn y ddogfen rydych wedi'i darllen. Cewch edrych beth ydi ystyr unrhyw eiriau dydych chi ddim yn eu deall.

- Darllenwch Ffynhonnell 1 i'ch helpu i baratoi ar gyfer trafodaeth a chymryd rhan mewn trafodaeth ar y testun: 'Manteision ac anfanteision profiad gwaith'.
- Defnyddiwch y wybodaeth hon i ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn y coleg yn annog myfyrwyr i fynd ar leoliadau profiad gwaith.
- Dangoswch y gwaith rydych wedi'i wneud i baratoi ar gyfer y drafodaeth. Gallwch wneud nodiadau neu restrau, defnyddio siart llif neu ddiagram pry cop, neu wneud nodiadau ar y ddogfen yn y ffynhonnell i ddangos y prif bwyntiau a'r prif syniadau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd pob sesiwn.

Adnoddau y dylech chi eu defnyddio:

Ffynhonnell 1: Profiad Gwaith - Canllaw i Ddechreuwyr

Siarad a gwrando
Trafodaeth (sy'n para 10 munud o leiaf ar gyfer grwpiau o 3-6 o bobl, a tua 20 munud o leiaf ar gyfer grwpiau mwy).

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yn Ffynhonnell 1, paratowch i gymryd rhan mewn trafodaeth ar y testun: 'Manteision ac anfanteision profiad gwaith'.

Cymerwch ran yn y drafodaeth. Rhowch resymau dros eich barn.

Yn ystod y drafodaeth, dylech wneud y canlynol:

- dweud beth rydych chi'n ei feddwl/ei deimlo am y pwnc.
- gwneud yn siŵr eich bod yn gofyn i bobl eraill yn y grŵp beth yw eu barn
- gwneud nodyn o unrhyw bwyntiau sy'n cael eu gwneud yn ystod y drafodaeth rydych chi'n teimlo fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer eich tasg ysgrifennu.

Ysgrifennu
Ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn y coleg er mwyn annog myfyrwyr i fynd ar leoliadau profiad gwaith.

Dylai eich erthygl fod o leiaf 250 gair o hyd.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi wedi'i chael o Ffynhonnell 1. Cewch hefyd gynnwys gwybodaeth rydych wedi'i chael o'r drafodaeth.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- llunio cynllun
- ysgrifennu/defnyddio prosesydd geiriau i lunio drafft cyntaf
- gwneud yn siŵr bod eich drafft yn gwneud synnwyr
- cywiro unrhyw gamgymeriadau
- llunio dogfen derfynol.

Dylai eich erthygl derfynol fod yn gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg. Dylech ddefnyddio paragraffau a brawddegau llawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd **pob** sesiwn.

Beth mae angen i chi ei wneud - Rhan 2

Darllen

Mae'n rhaid i chi allu canfod y prif bwyntiau a'r prif syniadau yn y ddogfen rydych wedi'i darllen. Cewch edrych beth ydi ystyr geiriau dydych chi ddim yn eu deall.

- Darllenwch Ffynhonnell 2 a dod o hyd i wybodaeth a fydd yn eich helpu i ysgrifennu e-bost at eich rheolwr yn dweud wrtho am ffair gyrfaoedd a gynhaliwyd yn eich ardal leol.

- Mae'n rhaid i chi ddangos sut rydych wedi paratoi ar gyfer ysgrifennu'r e-bost. Gallwch wneud nodiadau neu restrau, defnyddio siart llif neu ddiagram pry cop, neu gallech wneud nodiadau ar y ddogfen yn y ffynhonnell i ddangos y prif bwyntiau a'r prif syniadau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd pob sesiwn.

Adnoddau y dylech chi eu defnyddio:

Ffynhonnell 2: Sylwadau gan ymwelwyr am Ffair Gyrfaoedd 2016

Ysgrifennu

Ysgrifennu e-bost at eich rheolwr yn yr adran gwasanaethau i fyfyrwyr yn sôn am y ffair gyrfaoedd. Mae'n rhaid i chi esbonio beth oedd ymwelwyr yn ei feddwl oedd yn dda am y ffair ac awgrymu beth fyddai'n gallu cael ei wella ar gyfer y ffair gyrfaoedd nesaf.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i chael o Ffynhonnell 2.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- llunio cynllun
- ysgrifennu/defnyddio prosesydd geiriau i lunio drafft cyntaf
- gwneud yn siŵr bod eich drafft yn gwneud synnwyr
- cywiro unrhyw gamgymeriadau
- llunio dogfen derfynol.

Dylai eich e-bost terfynol fod yn gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg. Dylech ddefnyddio paragraffau a brawddegau llawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd **pob** sesiwn.

Ffynhonnell 1

Profiad Gwaith - Canllaw i Ddechreuwyr

Os ydych chi'n chwilio am swydd, mae yna lawer o fanteision i gael wrth fynd ar leoliad profiad gwaith. Mae'n gallu eich helpu i gael y profiad sydd ei angen arnoch i gael swydd a fydd yn talu cyflog i chi. Mae hefyd yn gallu bod eich cam cyntaf tuag at yrfa.

Mae faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar brofiad gwaith yn amrywio ac mae'n dibynnu ar beth sydd ar gael. Gallech chi weithio ar y penwythnos neu'n ystod yr wythnos neu gallech weithio sifftiau.

Bydd lleoliad profiad gwaith yn eich helpu i wella eich sgiliau personol, er enghraifft gweithio mewn tîm, cyfathrebu a rheoli eich amser. Gallwch hefyd ddysgu sgiliau newydd a fydd yn ddefnyddiol i chi yn eich gyrfa yn y dyfodol.

Mae profiad gwaith yn dangos i gyflogwr bod arnoch chi eisiau gweithio. Byddwch yn ennill profiad ac efallai y cewch chi dystlythyr i ddangos y byddech chi'n weithiwr da, er enghraifft, eich bod yn gweithio'n galed, yn onest a bob amser yn cyrraedd eich gwaith yn brydlon.

Os byddwch chi'n gweld yn ystod eich lleoliad gwaith nad ydych chi'n mwynhau'r math hwn o waith, gallwch bob amser roi cynnig ar rywbeth arall rywbryd eto.



Mae'r mwyafrif o leoliadau gwaith ffordd ddefnyddiol iawn o roi syniad i chi sut beth fyddai gweithio i gwmni neu wneud rhyw fath penodol o waith. Weithiau, mae'r cwmni yn defnyddio pobl ar brofiad gwaith i wneud pethau sydd ddim yn gysylltiedig â'r gwaith - gwneud te er enghraifft - neu'n rhoi tasgau iddynt eu gwneud nad ydyn nhw erioed wedi cael eu hyfforddi ar eu cyfer, ac mae hyn yn gallu achosi problemau.

Er hynny, yn aml mae tasgau i gael nad oes gan y staff amser i'w gwneud. Byddai rhywun yr un fath â chi yn gallu gwneud y tasgau hynny. Efallai y bydd gennych chi syniadau newydd i'w cynnig neu y byddwch chi'n gallu meddwl am ffyrdd newydd o ddatrys problemau yn y gweithle.

Cofiwch, mae profiad gwaith yn gallu bod y cam cyntaf tuag at yrfa lwyddiannus!

Ffynhonnell 2

Sylwadau gan ymwelwyr am Ffair Gyrfaoedd 2016

‘Pan es i i'r ffair gyrfaoedd roeddwn i’n chwilio am brofiad gwaith felly roedd yn beth defnyddiol iawn i weld gymaint o gwmnïau lleol efo’i gilydd mewn un lle. Mi ges i gyfle i gael sgwrs â chyflogwyr gwahanol i weld pa gyfleoedd oedd ar gael. Mae’n llawer gwell nag e-bostio fy CV i gwmnïau yn y gobaith o gael ateb.’

Lauren

‘Roedd gormod o bobl yno. Mi gymerodd o oesoedd i mi ddod o hyd i gwmnïau roedd gen i ddiddordeb ynddyn nhw. Mi ddylen nhw roi cwmnïau tebyg i gyd gyda’i gilydd mewn un lle. Byddai hynny wedi’i gwneud yn haws dod o hyd i’r bobl roeddwn i am siarad â nhw.’

Alex

‘Doeddwn i ddim yn gwybod pa swydd roeddwn i eisiau felly roedd yn gyfle i mi weld beth oedd ar gael. Roeddwn i’n gallu cael sgwrs gyda phobl oedd â phrofiad a chael cyngor defnyddiol am y cymwysterau y mae angen i mi eu cael ar gyfer gwahanol swyddi. Roeddwn i yno am oriau ac roeddwn i ar lwgu, mi fyddai paned o goffi wedi bod yn dda!’

Elin

‘Roedd yn wych! Roedd yn grêt gallu siarad gyda chyflogwyr heb fod mewn cyfweliad ffurfiol. Mi ddysgais i gymaint am brofiad gwaith a beth sydd gan gwmnïau gwahanol i'w gynnig. Roeddwn i wedi cael yr holl wybodaeth oedd ei hangen arnaf erbyn i mi fynd adref.’

Dafydd

‘Wel, mae’n siŵr ei bod yn ddefnyddiol o ran cael gwybod am wahanol swyddi. Ond rydw i’n gwybod beth rydw i am ei wneud a doedd neb yno i fy helpu i. Y flwyddyn nesaf, efallai y bydden nhw’n gallu ei chynnal mewn lle mwy er mwyn gwahodd mwy o gyflogwyr gydag ystod ehangach o gyfleoedd gwaith.’

Arwyn

Datganiadau

Mae'n **rhaid** llenwi datganiad yr ymgeisydd a datganiad yr aseswr.

Enw'r Ymgeisydd: _____

Datganiad yr ymgeisydd:

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yn gyfan gwbl yw hwn a fy mod wedi'i wneud yn ystod y sesiynau wedi'u goruchwylio sydd wedi'u nodi ar glawr blaen y llyfryn hwn.

Llofnod yr ymgeisydd Dyddiad _____

At ddefnydd staff y ganolfan a'r corff dyfarnu yn unig

Datganiad yr aseswr:

Rwyf yn cadarnhau bod yr ymgeisydd hwn wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y dasg dan reolaeth. Cynhaliwyd y dasg dan reolaeth yn unol â'r amodau a nodwyd a'i chwblhau o fewn y cyfnod gweithio a'r gofynion o ran amser gweithio.

Llofnod yr aseswr Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn fewnol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr IQA Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn allanol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr EQA Dyddiad _____